Delwedydd a'i Arwyr (2)

Philip Lloyd

Y tro diwethaf soniais am y cerflun o Daniel Owen (o waith W. Goscombe John) yn cael ei ddadorchuddio yn Yr Wyddgrug ym 1901. Y tro yma: Goscombe John yn dychwelyd i'r dref ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 1923.

Yr orymdaith at feddgist Richard Wilson. Canol / blaen: Goscombe John; chwith / blaen: Isaac J. Williams,Curadur Celf cyntaf yrAmgueddfa Genedlaethol; y tu ôl iddo: Carey Morris (drwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru)

Yn naturiol ddigon, roedd W. Goscombe John yn bresennol pan ddadorchuddiwyd ei gerflun o Daniel Owen yn Yr Wyddgrug ym 1901. Daeth 'nôl i'r dref ym 1923, pan gynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yno. Codwyd y Pafiliwn ar dir heb fod ymhell o ganol y dref ond sydd wedi hen ddiflannu o dan strydoedd o dai bellach.

Ceir map o'r Wyddgrug yn rhaglen swyddogol yr Eisteddfod. Mae'n nodi lleoliad Cylch yr Orsedd (*'Bailey Hill'*, rhif 1); y Pafiliwn, ynghyd â'r Maes (rhif 2); a'r *County School* (rhif 3), lle cynhaliwyd yr Arddangosfa Gelf a Chrefft. Ond nid yn y man lle mae'r map yn awgrymu y bu Cylch yr Orsedd (dyna lle mae'r lawnt fowlio). Yn hytrach, codwyd y meini ar y llecyn gwastad a welir ar lethrau gogleddol y bryn. Defnyddiwyd yr un meini ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 1991, ac eto ar gyfer Seremoni Cyhoeddi Prifwyl 2007.

Goscombe John yn beirniadu

Yn yr Adran Gelf a Chrefft cynigwyd gwobrwyon am waith Black and White (gan gynnwys, yn briodol iawn, *Illustrations depicting any three incidents from "Rhys Lewis")*, paentio, cerfluniaeth, pensaernïaeth, ffotograffiaeth a sawl maes arall. W. Goscombe John oedd beirniad y cystadlaethau cerfluniaeth: *Plaster Cast of Head, in the round, life size; Bas relief Medallion, 15" diam. in marble, plaster, or bronze; a Plaster Cast of any animal, in the round.*[1]

Ond bu i'r Arddangosfa Gelf a Chrefft ddiben amgenach, sef cyflwyno gweithiau celf safonol i'r eisteddfodwyr – arwydd o'r cydweithrediad clòs a fu yr adeg honno rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Amgueddfa Gendlaethol. Fe'i trefnwyd gan Carey Morris, arlunydd o Gymro a oedd yn gysylltiedig ag 'Ysgol Newlyn' yng Nghernyw,[2] a bu ar agor am bythefnos – sef wythnos yr Eisteddfod a'r wythnos flaenorol.

Rhaglen swyddogol yr Eisteddfod

Dyma ran o'r disgrifiad o'r arddangosfa a geir yn Rhaglen Swyddogol yr Eisteddfod:-

'A very fine Collection of Paintings (Oil and Water Colours), Etchings, &c., and Craft Work, obtained on Loan from Public Galleries, Art Societies, and from private sources. This collection will include several works by Members of the Royal Academy, and by representative Welsh Artists...Other features include a room containing specimens of decorative Needlecraft, and a Loan Collection of old Musical Instruments dating back over 200 years'.

Neilltuwyd un ystafell yn yr arddangosfa ar gyfer gweithiau gan y tirlunydd bydenwog Richard Wilson: *'a feature of special interest in view of his associations with Mold'*. Pa *associations*, tybed? Dyma nhw: ganwyd Richard Wilson ym Mhenegoes, ger Machynlleth, ond roedd ganddo gysylltiadau teuluol ag ardal Yr Wyddgrug. Trigai perthynas agos ym Mhlas Colomendy, nepell o'r dref. Treuliodd ei flynyddoedd olaf yno mewn iechyd bregus; a phan fu farw ym Mai 1792 yn 69 oed fe'i claddwyd dan feddgist fawreddog ym mynwent Eglwys y Plwyf.

Beddgist Richard Wilson

Mae'r arysgrifen ar gaead y feddgist yn cydnabod Wilson fel: *'Member of the Royal Academy of Artists'*, gan orffen gyda dau englyn gan fardd anhysbys:-

O foreu i yrfa eirian, – rho'i oleu
Ei athrylith allan,
Darluniai dilynai'n lân
I'r linell ar ôl anian..

Yn llaw ei oes bu'n llesol, [-] dyg iddi
Deg addysg gelfyddol
A'r gwir waith geir o'i ôl
A syna'r oes bresenol.

Roedd Goscombe John yn edmygydd mawr o Wilson. Manteisiodd ar y cyfle i dalu teyrnged iddo yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol 1923, fel y gwelir oddi wrth y ffotograff o orymdaith ar hyd y Stryd Fawr i osod torchau ar feddgist ei arwr.[3]

Ymwelydd ifanc yn astudio'r arysgrifen ar feddgist Richard Wilson ar ddiwrnod oer o aeaf yn 2001. Yn ddiweddarach, gosodwyd plac dehongliadol o flaen y feddgist gan Gymdeithas Ddinesig Yr Wyddgrug a'r Cylch (ffotograff: Philip Lloyd)

NODIADAU A FFYNONELLAU

1. *Daw'r manylion am y cystadlaethau a'r arddangosfa Celf a Chrefft o Raglen Swyddogol yr Eisteddfod, tt.153, 155, 157.*
2. *Lord, Peter. Diwylliant Gweledol Cymru: Delweddu'r Genedl. Caerdydd 2000. t.361*
3. *Ibid. t.317. Mae'r capsiwn i'r ffotograff o'r orymdaith yn enwi Goscombe John, Isaac J.Williams a Ceri Morris.*